**YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR**
*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*
Mewn undod mae nerth /Stronger together

28/6/2022

Annwyl Rieni/Gofalwyr

Rydym wedi cael tymor hynod o brysur hyd yn hyn. Aeth y mabolgampau yn dda a buom yn ffodus iawn gyda'r tywydd! Bu 2 ymweliad preswyl i flynyddoedd 5 a 6 a llawer o deithiau dosbarth ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill. Mae Blwyddyn 6 wedi cael wythnos lawn o weithgareddau pontio wrth iddynt baratoi i fynd i Ysgol Gwyr. Mae pob disgybl wedi mwynhau ystod o brofiadau wrth iddynt ymwneud â'u huned ddysgu yn yr ysgol. Diwrnod olaf y tymor fydd dydd Iau Gorffennaf 21ain. Cadwch olwg ar dudalen dosbarth eich plentyn ac ar twitter i gael mwy o wybodaeth.

**Siarter Iaith**
Erbyn diwedd tymor yr Hydref rydym yn anelu i gyrraedd y wobr arian ar gyfer y Siarter Iaith. Mae cydweithio gyda rhieni yn rhan fawr o sicrhau llwyddiant i ni fel cymuned Ysgol Gymraeg.
Gallwch helpu trwy:

- Rhoi cyfle i'ch plant clywed Cymraeg yn y cartref – Radio Cymru neu S4C
- Annog eich plant i siarad Cymraeg yn gymdeithasol tu allan i oriau Ysgol gyda'u ffrindiau.
- Gofyn i'ch plant faint o wobrwyo'n (pwyntiau DoJo) maent wedi ennill yn yr ysgol am ymdrechu i siarad Cymraeg yn ystod y diwrnod Ysgol.
- Tynnu sylw plant at hanes Cymry eu hardal neu o Gymru gyfan
- Annog balchder eich plant eu bod yn ddwyieithog a balchder yn yr iaith Gymraeg.

Os ydych yn dymuno dysgu Cymraeg – ewch i'r wefan yma: https://dysgucymraeg.cymru/

**Adroddiadau Ysgol**
Y nod yw i bob adroddiad cyflawn (gan gynnwys profion cenedlaethol Bl 2-6) fod yn barod i fynd allan Gorffennaf 11eg.

**Diwrnod pontio**
Bydd disgyblion yn cael cyfle i weld a chwrdd â'u hathrawon newydd ac ymgyfarwyddo ag unrhyw drefniadau newydd ar gyfer eu dosbarth newydd ar Orffennaf 19eg 2022
e.e Bydd disgyblion meithrin sy'n trosglwyddo i'r Derbyn yn mynd i brofi a gweld trefniadau amser cinio a.y.b

**Cyfarfod croeso i rieni newydd Meithrin a Derbyn**
Cynhelir noson agoriadol ar gyfer rhieni Meithrin newydd **nos Fercher Gorffennaf 6ed am 4.30pm**
Cynhelir noson agoriadol i rieni newydd y Dosbarth Derbyn **ar nos Fercher Gorffennaf 13eg am 4.30pm**

**Gwasanaeth Blwyddyn 6**
Cynhelir gwasanaeth blwyddyn 6 ar Ddydd Mercher Gorffennaf 20fed am 9.15yb yn neuadd yr ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr blwyddyn 6.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Ffair Haf**
Bydd ffair yr haf yn cael ei chynnal ar ôl ysgol ar **ddydd Iau 7/7/2022 am 3.30pm** – 5.30pm. PWYSIG – ar ddiwedd y diwrnod ysgol – rhaid i bob rhiant sy'n casglu eu plant adael y buarth er mwyn i ni allu gorffen trefnu'r stondinau. Rhodd wirfoddol yw'r taliad i ddod mewn i'r ffair haf – bydd yr holl arian a godir o'r ffair haf yn mynd tuag at ddarparu profiadau cyfoethog i'n holl ddisgyblion felly bydd rhoddion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

**Holiadur Rhieni**
Gweler y ddolen holiadur blynyddol rhieni isod. Yn yr holiadur hwn hoffem glywed gennych am ein perfformiad fel ysgol ac o ran eich barn ar gynllun y cwricwlwm. Bydd yr holiadur yn cau arGorffennaf 8fed - 12pm.

https://forms.office.com/r/bmdExYFr13

**Rhiant Lywodraethwr**
Diolch i bawb a ddangosodd ddiddordeb mewn cefnogi'r ysgol drwy rôl rhiant lywodraethwr. Yn dilyn yr etholiadau gallaf gadarnhau:

- Trilby James wedi ei hail-ethol
- Tamasine Preece wedi ei hail-ethol
- Anna Evans wedi ei hethol

**HMS**
22.7.2022

**Dyddiadau blwyddyn academaidd tymor newydd 2022-23**

- Dydd Llun + Dydd Mawrth – 5ed a 6ed Medi – HMS

- **Dydd Mercher Medi 7fed – Ysgol yn agored i bob disgybl**

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir

E. Wakeham

Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**